**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P 06 1185
Ein cyf/Our ref FM -/10257/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
deisebau@senedd.cymru

3 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i ddeisebau P-06-1185 a P-06-1186 sy'n ymwneud â gosod gofyniad cyfnod preswylio ar ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad i ymgeiswyr y Senedd fod yn byw yng Nghymru, cyn iddynt sefyll i gael eu hethol nac yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Fodd bynnag, i sefyll fel ymgeisydd, mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn un o'r canlynol:

- Dinesydd Prydain;
- Dinesydd cymwys o'r Gymanwlad;
- Dinesydd tramor cymwys;
- Dinesydd o Weriniaeth Iwerddon;
- Dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y Deyrnas Unedig.

Mater i'r pleidiau gwleidyddol yw dewis ymgeiswyr, a gall y dulliau a ddefnyddir ar gyfer dewis ymgeiswyr amrywio. Mewn rhai achosion, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis ar gyfer etholaeth neu ranbarth gan arweinwyr y blaid. Mewn achosion eraill, bydd ymgeisydd yn cael ei ddewis drwy bleidlais gan gangen leol y blaid. Mae ymgeiswyr annibynnol hefyd sy'n cael dewis drostynt eu hunain ym mha etholaeth y byddant yn sefyll.

Mae'r deisebau'n codi cwestiynau diddorol am yr hyn sy'n gwneud cynrychiolydd effeithiol ac ynghylch y berthynas rhwng yr ymgeisydd a'u darpar etholwyr. Bydd y cynrychiolydd etholedig yn cael ei ddewis gan bleidleiswyr i siarad ar eu rhan yn y Senedd ac er mwyn gallu gwneud hynny mae angen iddo fod â gwybodaeth am y bobl sy'n byw yn yr etholaeth a'r heriau unigryw sy'n eu hwynebu. Mae angen i'r Aelod hefyd sicrhau hyder ei etholwyr os yw'n dymuno cael ei ailethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'n hawdd mesur effaith statws preswylio ar effeithiolrwydd ymgeisydd. Mewn egwyddor, bydd gan berson sydd wedi byw ac wedi'i fagu mewn ardal fwy o wybodaeth am y materion sy'n wynebu'r etholwyr, ar sail ei brofiad ei hun. Fodd bynnag, gellir dysgu gwybodaeth leol o'r fath a gellir dadlau bod gallu ymgeisydd i feithrin cysylltiadau a datblygu perthynas gyda'i etholwyr yn llawer pwysicach. Er y gall gwybodaeth leol flaenorol fod o fantais, mae effeithiolrwydd ymgeisydd yn ddibynnol ar ystod eang o sgiliau.

Byddai gwahardd unigolion sy'n byw y tu allan i Gymru rhag ymgeisio yn atal y rheini sydd â chysylltiadau a diddordeb gwirioneddol rhag sefyll fel ymgeiswyr. Er enghraifft, efallai bod unigolyn wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru, ac wedi symud i ffwrdd yn ddiweddar iawn, ond byddai'r unigolyn yn anghymwys o dan gynigion y ddeiseb, er bod ganddo gysylltiad gwirioneddol. Byddai hyn hefyd yn gorfodi ymgeiswyr o'r fath i wneud newidiadau sylweddol a chostus i'w trefniadau byw cyn gwybod i sicrwydd eu bod wedi'u hethol.

Efallai y bydd cynnig o'r fath yn fwy priodol ar gyfer cyfnod yr Aelod mewn swydd. Ar ôl cael ei ethol i'r Senedd, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr i Aelod fyw y tu allan i Gymru. Er bod technoleg wedi ein galluogi i gyfathrebu dros bellter, gan alluogi i fwy o bobl weithio o bell, ni fydd hyn bob amser yn fanteisiol i waith aelod, lle bydd angen creu cysylltiadau yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cynnal cymorthfeydd rheolaidd, mynd i ddigwyddiadau lleol ac ymweld â busnesau a mannau o ddiddordeb yn yr ardal. Gall gwaith achos yn yr etholaeth gynnwys achosion sensitif ac emosiynol iawn eu natur, a gallai gweithio o bell fod yn rhwystr ychwanegol diangen. Nid yw hyn yn golygu na all Aelodau wneud peth o'u gwaith o bell, ond mae'n anorfod bod llawer iawn o waith Aelodau yn gofyn am eu presenoldeb yn yr etholaeth.

Er mwyn gweithredu gofyniad preswylio ar gyfer ymgeiswyr neu Aelodau o'r Senedd, byddai angen ymgynghori gydag amryw o randdeiliaid i ystyried goblygiadau llawn newid o'r fath ar Aelodau presennol a darpar Aelodau. Byddai'n rhaid ystyried yr effaith ar hawliau'r rhai dan sylw, i ba raddau y mae angen darpariaeth o'r fath i gyflawni nodau penodol, gan gynnwys ei gymesuroldeb, ac a oes unrhyw ddewisiadau eraill a fyddai'n cyflawni'r un nodau neu ffyrdd o leihau unrhyw niweidiau posibl. Yn yr un modd ag y dylid diogelu'r hawl i bleidleisio, ni ddylid chwaith wrthod yr hawl i unigolion sefyll i gael eu hethol heb reswm da.

Yn gywir,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**